Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gwir Anrhydeddus Arglwydd Ustus Green
Cadeirydd
Comisiwn y Gyfraith
1st Floor Tower
52 Queen Anne's Gate
Llundain
SW1H 9AG

Nicholas.Green@lawcommission.gov.uk

Mawrth 2023

Annwyl Nicholas

**YMATEB MANWL I'R ADRODDIAD AR REOLEIDDIO DIOGELWCH TOMENNYDD GLO YNG NGHYMRU**

Ym mis Medi 2022, cyhoeddais ymateb interim i'ch adroddiad, Rheoleiddio Diogelwch Tomennydd Glo yng Nghymru ("yr adroddiad"). Roedd ein hymateb yn canolbwyntio ar y themâu allweddol yn yr adroddiad a'n dull gweithredu arfaethedig i adeiladu ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

Y llythyr hwn yw ymateb manwl Llywodraeth Cymru i'r adroddiad, a gyhoeddwyd yn unol â'r Protocol rhwng Comisiwn y Gyfraith a Gweinidogion Cymru (Gorffennaf 2015).

Yr wyf yn ddiolchgar i chi ac i Gomisiwn y Gyfraith am adolygu'r pwnc hwn yn drylwyr ac yn arloesol.

Roedd adroddiad Comisiwn y Gyfraith yn nodi'n glir y problemau a'r diffygion gyda'r drefn bresennol, a phwysigrwydd cyflwyno fframwaith rheoleiddio modern ar gyfer tomenni nas defnyddir. Pwysigrwydd a ddaeth i'r amlwg yn sgil y tirlithriad yn Tylorstown yn 2020, a gafodd lawer o sylw, ac effaith gynyddol newid yn yr hinsawdd a'r risgiau cysylltiedig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol yn ystod tymor y Senedd hon fel rhan o Raglen Tasglu Diogelwch Tomenni Glo y Prif Weinidog. Bydd hyn yn adeiladu ar y cynigion deddfwriaethol a nodwyd yn ein Papur Gwyn[1] y llynedd, a oedd yn

[1] Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru): Fframwaith rheoleiddio newydd ar gyfer tomenni glo nas defnyddir yng Nghymru (2022): https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-05/papur-gwyn-ar-ddiogelwch-tomenni-glo.pdf

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

seiliedig ar ganfyddiadau Comisiwn y Gyfraith. Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn[2] wedi caniatáu i ni fireinio ein dull gweithredu.

Fel rhan o'r Tasglu, rydym wedi gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys yr Awdurdod Glo, awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae ein gwaith gyda'r Awdurdod Glo yn cynnwys archwilio'r tomenni risg uwch yng Nghymru a threialu elfennau o'r drefn arfaethedig mewn sefyllfaoedd go iawn. Mae hyn wedi helpu i fireinio ein sefyllfa polisi ymhellach. Mae hyn yn arbennig o wir am y meysydd mwy technegol, fel asesu'r peryglon, lle dywedodd Comisiwn y Gyfraith y byddai angen gwneud rhagor o waith.

**Trosolwg o'n hymateb**

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru ar bob un o'r 36 o argymhellion, fel y nodir yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith, i'w weld yn Atodiad 1 a cheir crynodeb ar ffurf tabl yn Atodiad 2. Rydym wedi trafod ein hymatebion i'r argymhellion â'ch swyddogion.

Mae'r rhesymeg dros ein hymatebion i'r argymhellion yn cael eu categoreiddio yn y tri chanlyniad a nodir yn y protocol – derbyn, bwriad gweithredu ar ffurf wedi'i haddasu, a gwrthod. Lle rwyf wedi nodi ein safbwynt fel 'bwriad gweithredu ar ffurf wedi'i haddasu'; er ein bod yn cytuno gan mwyaf ag egwyddor yr argymhelliad, efallai y byddwn yn ceisio amrywio rhai agweddau er mwyn adlewyrchu safbwynt polisi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd dull arall o fynd i'r afael â'r mater a godwyd.

Dyma ein hymatebion cyffredinol:

- Derbyn – 50% (18 o argymhellion)
- Bwriad gweithredu ar ffurf wedi'i haddasu – 33% (12 o argymhellion)
- Gwrthod – 8% (3 argymhelliad)

Ar ben hynny, mae tri argymhelliad (8%) lle rydym wedi nodi bod angen tystiolaeth ategol ychwanegol i benderfynu yn y dyfodol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r argymhellion a sut i wneud hynny.

Mae Atodiad 1 yn cynnwys esboniad manylach, gan gynnwys y sail resymegol lle nad ydym yn cytuno ag argymhelliad. Mae'n werth nodi ein bod o reidrwydd wedi addasu'r dull polisi mewn rhai meysydd oherwydd bod tomenni nad ydynt yn rhai glo wedi'u cynnwys yn y drefn – newid a ragwelwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith. Yn y rhan fwyaf o'r meysydd hyn, er y gall y polisi amrywio o'r argymhelliad penodol, mae'r bwriad sylfaenol yn cael ei gadw.

**Crynodeb o'r dull gweithredu arfaethedig ar gyfer trefn newydd ar gyfer tomenni nas defnyddir**

Er mwyn darparu'r cyd-destun polisi ar gyfer yr ymateb manwl, amlinellaf ein dull gweithredu cyffredinol ar gyfer asesu, categoreiddio, rheoli a chynnal a chadw. Mae rhai elfennau wedi datblygu ers fy llythyr interim, yn rhannol mewn ymateb i'n hymgynghoriad.

[2] Papur Gwyn ar Ddiogelwch Tomenni Glo (Cymru): Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2022-11/papur-gwyn-ar-ddiogelwch-tomenni-glo-crynodeb.pdf

Mae Diagram 1 yn dangos prif gamau'r drefn newydd ar ôl ychwanegu tomen at y gofrestr asedau, ac yna esboniad o bob cam.





*Diagram 1: crynodeb o'r cynigion.*

**(1)** Ar ôl ychwanegu tomen at y gofrestr asedau, bydd dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i **asesu'r peryglon**, a hynny o fewn cyfnod penodol. Mae hyn yn debyg i'r archwiliad cychwynnol a'r asesiad risg yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith.

Bydd asesu'r peryglon yn arwain at gatalog sy'n benodol i'r safle o'r holl beryglon sylweddol mewn lleoliad tomen, a defnyddir dull matrics safonol i asesu eu potensial o ran peryglon. Gellir rhoi'r gwaith hwn allan ar gontract i drydydd parti cymwys. Bydd peryglon yn cael eu hasesu ar eu potensial i achosi anaf neu niwed i grwpiau derbynleoedd penodol fel pobl/cymunedau, eiddo, seilwaith a'r amgylchedd.

**(2)** Bydd asesu'r peryglon wedyn yn cyfrannu at **gategoreiddio tomen**. Bydd yn ofynnol i'r awdurdod goruchwylio neilltuo categori i bob tomen. Y categorïau sydd ar gael i'r awdurdod goruchwylio yw 1 i 5. Mae'r rhain yn amrywio o 1 – sy'n galw am lawer iawn o waith goruchwylio a rheoli, i 5 – sy'n gofyn am ychydig iawn o waith goruchwylio a rheoli. Mae'r dull hwn yn wahanol i gynigion yr adroddiad ar gyfer 'dynodi' tomenni risg uwch ond mae'n cadw ei fwriad sylfaenol.

Bydd y categori a neilltuir yn pennu'r **parti sy'n gyfrifol** am y domen honno (gweler Tabl 1), a'r drefn reoli sy'n berthnasol iddi. Bydd gan yr awdurdod goruchwylio y pŵer i ail-aseinio tomen iddo'i hun, pe bai'r amgylchiadau'n mynnu hynny. Bydd darpariaethau pellach hefyd yn caniatáu i glystyrau rhyng-gysylltiedig o domenni gael eu rheoli mewn ffordd synhwyrol a rhyng-gysylltiedig; mater a godwyd yn adroddiad Comisiwn y Gyfraith.

**(3)** Bydd dyletswydd ar yr awdurdod goruchwylio i wneud trefniadau i baratoi **cynlluniau rheoli** ar gyfer tomenni categori 1 a 2. Gellir paratoi cynlluniau hefyd ar gyfer tomenni categori is os yw'r parti sy'n gyfrifol am y tomenni hyn yn dymuno gwneud hynny.

Mae hyn yn wahanol i argymhellion Comisiwn y Gyfraith a'r cynigion a amlinellir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru o ran peidio â mynnu cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni categori is. Mae'r dull hwn yn un cymesur, ar sail y ffaith bod y tomenni wedi cael eu categoreiddio fel rhai sy'n gofyn am lai o waith goruchwylio a rheoli, a bod y dyletswyddau wedi'u diweddaru, sy'n ymwneud ag archwilio ac arfarnu, yn ddigonol i gyflawni hynny.

Bydd y cynlluniau rheoli'n amrywio yn ôl categori a nodweddion unigol pob tomen. Byddant yn cynnwys, o leiaf, fanylion y domen; amserlenni archwilio, arfarnu ac unrhyw waith archwilio arbenigol ychwanegol sy'n angenrheidiol; a rhaglen ragweithiol o waith cynnal a chadw ac adfer.

**(4)** Er mwyn adlewyrchu'r angen am ddull cymesur o fonitro'r tomenni, diffinnir dau ddull:

- **Archwilio** – archwiliad 'technegol is' lle defnyddir pro fforma safonol i adrodd ar gyflwr a pherfformiad y mathau o nodweddion allweddol ar y safle; ac
- **Arfarnu** – arfarniad technegol manwl a chynhwysfawr, gan gynnwys archwiliad safle. Bydd hwn yn darparu catalog manwl o holl nodweddion tomenni, eu cyflwr a sylwadau cyffredinol ar y safle. Gwneir argymhellion ar gyfer gwaith cynnal a chadw, lle bo hynny'n berthnasol.

Bydd dyletswydd ar y parti cyfrifol i wneud trefniadau i archwilio ac arfarnu tomenni yn unol â'u categori.

Mae pa mor aml y bwriedir cynnal gwaith archwilio ac arfarnu yn dibynnu ar drafodaethau parhaus ag arbenigwyr technegol a mireinio mewn ymateb i waith y tasglu. Mae'r rhain wedi esblygu ers cyhoeddi'r Papur Gwyn.

| Categori | Parti Cyfrifol[3] | Amlder | |
|---|---|---|---|
| | | Archwilio | Arfarnu |
| 1 | Awdurdod Goruchwylio | 6 mis | 2 flynedd |
| 2 | Awdurdodau Lleol ar gyfer tomenni yn eu hystad a thomenni sy'n eiddo preifat | 9 mis | 3 blynedd |
| 3 | Perchnogion | 18 mis | 6 blynedd |
| 4 | Perchnogion | 30 mis | AMH[4] |
| 5 | Perchnogion | Wedi'u heithrio | Wedi'u heithrio |

*Tabl 1: categorïau tomenni, partïon cyfrifol, ac amlder archwilio/arfarnu*

**(5)** Fel rhan o'r drefn, bydd yr awdurdod goruchwylio, ac mewn rhai amgylchiadau awdurdodau lleol, yn gallu llunio **cytundebau cynnal a chadw** gyda pherchnogion tomenni. Bydd cytundebau cynnal a chadw yn darparu dull rhagweithiol o atal problemau diogelwch tomenni rhag datblygu. Byddant yn caniatáu i bartïon cyfrifol ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt *hwy* wrth helpu i sicrhau diogelwch tomenni glo. Gallant egluro'r gwaith cynnal a chadw sy'n ofynnol gan y parti cyfrifol; amserlenni archwilio ar gyfer y parti cyfrifol; gofynion cynnal a chadw y bydd yr awdurdod goruchwylio neu'r awdurdod lleol yn gwneud trefniadau ar eu cyfer; a chytuno ar hawliau mynediad.

Bydd dyletswydd ar bartïon cyfrifol i wneud trefniadau i **gynnal** ac **adfer** eu tomenni. Gellir nodi'r gwaith y mae angen ei wneud mewn cynllun rheoli, cytundeb cynnal a chadw, adroddiad archwilio neu arfarnu, neu o ganlyniad i ddigwyddiad, er enghraifft llithriad.

**(6)** Bydd yr awdurdod goruchwylio yn goruchwylio cydymffurfiad â'r drefn ac yn sicrhau ei bod yn cael ei chyflawni'n gyson drwy'r gofrestr asedau, gan gynnwys canlyniadau asesu peryglon, archwilio ac arfarnu a ychwanegir ati, a thrwy gynnal hapwiriadau. Bydd y rhain

[3] Yr Awdurdod Glo a Cyfoeth Naturiol Cymru fydd y parti cyfrifol ar gyfer yr holl domenni maent yn berchen arnynt.

[4] Bydd arfarniad yn cael ei gynnal os bydd newid sylweddol yn cael ei ganfod mewn adroddiad archwilio

yn cael eu gwneud drwy gytundeb lle bo hynny’n bosibl, ond bydd gan yr awdurdod goruchwylio bwerau mynediad, gan gynnwys i asesu cydymffurfiad.

Bydd gan yr awdurdod goruchwylio, ac mewn rhai amgylchiadau awdurdodau lleol, bwerau gorfodi hefyd. Mae hyn yn unol ag argymhellion Comisiwn y Gyfraith.

**Gweithredu**

Mae hwn yn faes cymhleth a fydd yn sefydlu’r drefn gyntaf yn y byd ar gyfer rheoli tomenni nas defnyddir a gallai, yn y pen draw, gwmpasu dros 20,000 o domenni sborion ledled Cymru. Fodd bynnag, yr wyf wedi ymrwymo o hyd i gyflwyno Bil i Senedd Cymru yn ystod tymor presennol y Senedd. Os caiff y bil ei basio gan y Senedd, ac ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol, bydd y gwaith yn dechrau ar unwaith i sefydlu awdurdod goruchwylio newydd a darparu trefn sy’n gallu goruchwylio diogelwch tomenni yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch eto i Gomisiwn y Gyfraith am ei adroddiad gwerthfawr, ei gefnogaeth a’i gymorth parhaus wrth gyflawni’r maes polisi pwysig hwn, a’r berthynas gadarnhaol a chynhyrchiol iawn rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith.

Yn gywir

**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change